



## Cwestiynau cyffredin/Rhwystrau posibl i “Ofyn a Gweithredu”

---

Mae’r manteision o weithredu proses “Gofyn a Gweithredu” wedi’u hamlinellu yn *Gweithredu “Gofyn a Gweithredu” – canllawiau i arweinwyr, cydgysylltwyr a rheolwyr mewn awdurdodau perthnasol a Darparu “Gofyn a Gweithredu” – rôl yr ymarferydd rheng flaen.*

Er y dylai adnabod dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol eisoes fod yn rhan o ymarfer clinigol a gofal cymdeithasol da, rydym yn cydnabod y gallai heriau godi wrth gyflwyno proses ffurfiol ar gyfer hyn. Mae’r ddogfen hon yn nodi’r rhwystrau i weithrediad effeithiol holi wedi’i dargedu a chynigion i liniaru’r rhwystrau hynny.

Gall rhwystrau i weithredu fod yn gysylltiedig ag agweddau gweithwyr proffesiynol, strwythurau sefydliadol a theimladau ac ofnau’r cleientiaid.

## Agweddau proffesiynol sy'n rhwystrau posibl i weithredu Gofyn a Gweithredu

Pryder	Ymateb	Mesur Lliniaru
<p>Gallai holi wedi'i dargedu ddigio'r cleient neu achosi gofid ac anesmwythyd emosiynol.</p>	<p>Yn gyffredinol, bach yw'r effeithiau anffafriol a nodwyd mewn perthynas â sgrinio<sup>1</sup>.</p> <p>Mae ymarfer yn y maes hwn yn awgrymu bod y rheini sy'n cael eu holi am eu profiad o drais neu gam-drin yn ffafrio'r broses gan mwyaf.<sup>2</sup> Mae hyn yn wir iawn am y rheini sydd wedi profi trais a cham-drin.</p> <p>Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu bod menywod yn llawer mwy tebygol na gweithwyr proffesiynol o gefnogi arferion sgrinio.</p> <p>Mae'r adborth seiliedig ar ymarfer yn cynnwys nifer o enghreifftiau o gleientiaid a brofodd gam-drin domestig am ddegawdau ond a oedd heb ofyn am help oherwydd diffyg gwybodaeth neu ofn ond a fyddai wedi gofyn am help pe bai rhywun wedi'u holi.</p>	<p>Yr arfer gorau yw trefnu i hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" gael ei gyd-ddarparu gan weithiwr proffesiynol sydd â gwybodaeth dda am y gynulleidfa (yn gweithio yn yr un maes neu faes tebyg) a gweithiwr proffesiynol sydd â gwybodaeth gadarn am y profiad a'r effaith o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.</p> <p>Y nod wrth gyd-ddarparu hyfforddiant fel hyn fydd cynnig adborth arbenigol a seiliedig ar ymarfer i gynulleidfa'r hyfforddiant i'w gwneud yn fwy hyderus i arfer holi wedi'i dargedu.</p>
<p>Gallai holi wedi'i dargedu beryglu'r cleient ymhellach.</p>	<p>Yn gyntaf, mae'n bwysig cydnabod, <b>os gwneir hyn yn breifat a diogel</b>, na fydd holi am y profiad o drais neu gam-drin yn gwneud iddo ddigwydd. Hefyd, bydd gan bob cleient ddewis i ddatgelu neu beidio. Yn y pen draw, dewis i'r cleient yw hyn.</p> <p>Fodd bynnag, byddai proses o holi wedi'i dargedu yn gallu creu risgiau os nad yw'n cael ei harfer yn briodol neu os na chymerir camau priodol wedyn.</p>	<p>Fel uchod – bydd cyd-ddarparu gan arbenigwyr ar y gynulleidfa a'r pwnc yn helpu i fagu hyder mewn gweithwyr proffesiynol.</p> <p>Dylid cadw'r risgiau a grëir gan wasanaeth mewn cof a sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r offer sydd eu hangen i'w lliniaru.</p> <p>Rhaid cydymffurfio bob amser â deddfwriaeth ar Ddiogelu Data wrth rannu data. Sicrhewch fod y sefydliad wedi cytuno ar Brococol Rhannu Gwybodaeth perthnasol sy'n nodi dyletswydd cyfrinachedd y gweithiwr proffesiynol a phryd a pham y gellir torri'r ddyletswydd hon.</p> <p>Gofalwch fod y sefydliad yn dilyn protocolau clir ar atgyfeirio ar gyfer cynnig opsiynau/cymryd camau i ddiogelu oedolion a phlant.</p>

<sup>1</sup> Feder, G. et al (2009) How far does screening women for domestic (partner) violence in different healthcare settings meet criteria for a screening programme? Systematic review of 9 UK National Screening Committee Criteria

<sup>2</sup> Mae'r ymchwil yn ymwneud yn bennaf â phrofiad menywod

## Strwythurau sefydliadol sy'n rhwystrau posibl i weithredu Gofyn a Gweithredu

Pryder	Ymateb	Mesur Lliniaru
<p>Diffyg capasiti ar gyfer treulio amser gyda'r cleient i ofyn cwestiynau i'r cleient neu i'r cleient roi ateb digonol.</p>	<p>Dylai holi wedi'i dargedu gael ei gefnogi drwy weithredu newidiadau polisi a sefydliadol sy'n hwyluso'r broses.</p>	<p>Dylai awdurdodau perthnasol weithio gyda thimau staff a phartneriaid allanol i gytuno ar y broses "Gofyn a Gweithredu" sydd fwyaf priodol i'w swyddogaeth fel gwasanaeth.</p>
<p>Diffyg hyfforddiant/addysg/profiad yn arwain at:</p> <p>Staff yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o sgiliau a hyder</p> <p>Diffyg gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael</p>	<p>Mae tystiolaeth yn dangos bod rhaglenni cynhwysfawr – y rheini sy'n cefnogi proses o holi wedi'i dargedu ar wahanol lefelau; drwy hyfforddi ymarferwyr, cymorth, seilwaith a buddsoddiad sefydliadol – yn arwain at adnabod mwy o achosion o drais dan law partner mewn perthynas bersonol na rhaglenni nad ydynt yn gynhwysfawr.</p>	<p>Bydd hyfforddiant wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ar broses "Gofyn a Gweithredu" yn cael ei gynnig drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.</p> <p>Bydd arweinwyr yn yr awdurdodau perthnasol hefyd yn cael cynnig cymorth drwy'r fframwaith hwn i ddangos arweiniad ar y mater hwn ac i ddatblygu seilweithiau i gynnal ymarfer.</p>
<p>Diffyg mynediad at ymyriadau effeithiol i ddelio â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.</p>	<p>Ni all unrhyw asiantaeth, ar ei phen ei hun, fynd i'r afael yn effeithiol â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai'r holl waith fod yn seiliedig ar ymateb amlasiantaethol.</p> <p>Nid rôl yr awdurdodau perthnasol yw dod yn arbenigwyr ar faterion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, neu ddod yn weithwyr arbenigol. Bydd y rolau hyn yn bodoli'n lleol ac er mwyn sicrhau ymarfer effeithiol bydd angen partneriaethau cadarn a chynaliadwy rhwng yr awdurdodau perthnasol a'r sector arbenigol.</p>	<p>Gofalwch fod y sefydliad yn dilyn protocolau clir ar atgyfeirio ar gyfer cynnig opsiynau/cymryd camau i ddiogelu oedolion a phlant.</p> <p>Gall y protocolau atgyfeirio hyn olygu cyd-leoli gwasanaethau, er na fydd hyn yn ymarferol i lawer o sefydliadau.</p> <p>Dylid hefyd ystyried darparu clinigau galw heibio ac atgyfeirio uniongyrchol ac effeithlon i wasanaethau lleol a defnyddio'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn.</p>

## Strwythurau sefydliadol sy'n rhwystrau posibl i weithredu Gofyn a Gweithredu

Pryder	Ymateb	Mesur Lliniaru
Anhawster wrth ddarparu man diogel.	<p>Dylai holi wedi'i dargedu gael ei gefnogi drwy weithredu newidiadau polisi a sefydliadol sy'n hwyluso'r broses.</p> <p>Mae man diogel yn lleoliad sy'n sicrhau preifatrwydd llwyr. Ni ellir byth ddarparu hyn mewn ystafell aros gyhoeddus neu le sydd heb ddim ond llenni i'w guddio.</p>	<p>Dylai arweinwyr y sefydliad ystyried pa ystafelloedd sydd ar gael i gynnig lle preifat a diogel i drafod â'r cleient. Gall hyn olygu defnyddio ystafell gyf-weld neu wneud defnydd creadigol o le arall.</p> <p>I rai grwpiau proffesiynol, gall hyn olygu sicrhau nad yw neb arall yn gallu gwrandao ar sgysiau sy'n digwydd yng nghartref y cleient, neu mewn mannau cyhoeddu.</p>

## Teimladau ac ofnau'r cleient sy'n rhwystrau posibl i weithredu Gofyn a Gweithredu

Pryder	Ymateb	Mesur Lliniaru
Ofn dial, ofn ymateb, ofn na fydd neb yn ei gredu neu ofn ymateb y sefydliad/gweithiwr proffesiynol.	<p>Bydd ymateb empathig a chryf i ddatgeliad gan gleient, sy'n cyfleu eich bod yn ei gredu ac sy'n dilysu ei brofiad, yn tawelu meddwl y cleient yn syth. Mae'n hollbwysig bod pob cleient yn ymwybodol o bolisi cyfrinachedd y sefydliad y mae'n ymwneud ag ef ac felly'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am ba wybodaeth i'w rhannu â'r gweithiwr proffesiynol y mae'n gweithio gydag ef a bod ganddo ddisgwyliadau rhesymol ynghylch sut y bydd y wybodaeth honno'n cael ei thrin</p>	<p>Sicrhau bod polisïau'r sefydliad ar ddiogelu data, rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd yn cael eu diweddarau, yn gyfreithlon ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.</p> <p>Sicrhau bod yr holl staff yn deall y ddyletswydd cyfrinachedd a'u bod yn gallu ei hesbonio'n glir i'w cleientiaid.</p>
Pryder y gallai datgelu wneud y sefyllfa'n waeth.	<p><b>Rhaid i ddiogelwch y cleient a'i blant fod yn ganolog i bob proses "Gofyn a Gweithredu".</b></p> <p>Ni ddylid byth cymryd unrhyw gamau gan wybod y byddent yn peryglu'r cleient a dylai gweithwyr proffesiynol godi unrhyw bryderon gyda'u goruchwyliwr neu reolwr os yw hyn wedi digwydd.</p> <p>Yn aml bydd cleientiaid wedi bod yn gofalu am eu diogelwch eu hunain ers tro cyn datgelu'r cam-drin. Dylai gweithwyr proffesiynol gofio y bydd y cleient yn adnabod y person sy'n ei gam-drin yn well na neb arall ac felly rhaid cymryd ei farn am ei sefyllfa o ddifrif. <b>Mae'r cleient yn fwy tebygol o wneud yn fach o'r risg y mae'n ei hwynebu nag o'i gor-ddweud.</b></p>	<p>Sicrhau bod cyfle i adnabod risg yn fuan ar ôl datgelu (drwy lwybrau mewnol neu allanol).</p> <p>Sicrhau bod yr holl staff yn deall y ddyletswydd cyfrinachedd a'r gofynion mewn deddfwriaeth ar ddiogelu data a'u bod yn gallu eu hesbonio'n glir i'w cleientiaid.</p>

## Teimladau ac ofnau'r cleient sy'n rhwystrau posibl i weithredu Gofyn a Gweithredu

<b>Pryder</b>	<b>Ymateb</b>	<b>Mesur Lliniaru</b>
Diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau.	Ni ddylai gweithwyr proffesiynol perthnasol gymryd rhan yn y broses "Gofyn a Gweithredu" oni bai eu bod wedi'u hyfforddi'n ddigonol yn y gwasanaethau lleol sydd ar gael. Bydd "gweithredu" bob amser yn galw am egluro pa wasanaethau arbenigol lleol a chenedlaethol sydd ar gael, neu am atgyfeirio iddynt.	Mae'r hyfforddiant ar "Gofyn a Gweithredu" yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael, am drothwyon ac am brosesau atgyfeirio.